**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

25 Hydref 2023

**Prydau ysgol am ddim**

Annwyl Jeremy

Yn ein cyfarfod ar 14 Medi, gwnaethom nodi gohebiaeth a ddaeth i law drwy e-bost gan naw elusen genedlaethol sy'n gweithio er lles plant yn mynegi eu pryderon na fyddai'r rhaglen prydau ysgol am ddim yn parhau yn ystod gwyliau'r haf.

Deallwn fod rhai awdurdodau lleol wedi cynnig rhyw fath o raglen fwyd yn ystod y gwyliau, a hoffem wybod yn union pa raglenni a gynhaliwyd dros gyfnod gwyliau'r haf yn benodol, yn ogystal â lefelau cyfranogiad yn y rhaglenni hyn.

Fel y gwyddoch, yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023/24, gwnaethom argymell y dylid gwarantu'r rhaglen prydau ysgol am ddim drwy gydol cyfnod cyllideb 2023/24, gan gynnwys y gwyliau ysgol ym mis Chwefror 2024. Wrth i bwysau costau byw barhau i effeithio ar deuluoedd ledled Cymru, mae'n destun pryder bod un o'r camau a gymerwyd i helpu gyda'r materion hyn wedi'i ddirwyn i ben mor agos at wyliau'r haf.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb gennych erbyn 6 Rhagfyr.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.